Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 11 Awst 2020 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 26 AWST 2020** am **10.00 am**.

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CAIS I'W YSTYRIED -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003:–ADOLYGIAD O DRWYDDED EIDDO – THE NORTH, 27 FFORDD WELLINGTON, Y RHYL** (Tudalennau 5 - 232)

Ystyried cais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu Trwydded Eiddo a gyflwynwyd yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Irving | Melvyn Mile |
| Brian Jones | |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# GWRANDAWIADAU'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## GWEITHDREFN AR GYFER GWRANDAWIADAU ADOLYGU TRWYDDEDAU O BELL
## ADRAN 51 DEDDF TRWYDDEDU 2003

**OHERWYDD Y CYFYNGIADAU YN SGIL PANDEMIG Y CORONAFEIRWS, BYDD GWRANDAWIADAU'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU YN CAEL EU CYNNAL O BELL DRWY SYSTEM FIDEO-GYNADLEDDA CISCO WEBEX. BYDD Y SYSTEM YN CAEL EI PHROFI GYDA'R CYFRANOGWYR YMLAEN LLAW A BYDD POB PARTI PERTHNASOL YN DERBYN GWAHODDIAD ELECTRONIG A DOLEN I'R GWRANDAWIAD.**

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Cadeirydd yn agor y cyfarfod yn ffurfiol ac yn croesawu pawb.<br>Cadeirydd yn cyflwyno aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a'r swyddogion sy'n bresennol.<br>Cadeirydd yn gwahodd partïon eraill i gyflwyno'u hunain a phwy maent yn cynrychioli. |
| 2. | Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais am Adolygiad. |
| 3. | Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd i gyflwyno'r Cais am Adolygiad. |
| 4. | Cadeirydd yn gwahodd (os yn bresennol) unrhyw Awdurdod Cyfrifol ychwanegol i gyflwyno'u sylwadau. |
| 5. | Cadeirydd yn gwahodd aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd ac unrhyw Awdurdod Cyfrifol sy'n bresennol. |
| 6. | Cadeirydd yn gwahodd (os yn bresennol) unrhyw barti arall â diddordeb i gyflwyno sylwadau. |
| 7. | Cadeirydd yn gwahodd deilydd y Drwydded Mangre i gyflwyno sylwadau. |
| 8. | Cadeirydd yn gwahodd aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i ddeilydd y Drwydded Mangre ac (os yn bresennol) i unrhyw barti â diddordeb, gan yn egluro unrhyw bwynt gyda'r Ymgeisydd. |
| 9. | Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd i wneud datganiad terfynol. |
| 10. | Cadeirydd yn cloi'r cyfarfod i bob parti arall (a fydd yn gadael y cyfarfod) er mwyn i'r aelodau aros ac ystyried eu penderfyniad yn breifat, gyda'r Cynghorwr Cyfreithiol a Chlerc y gwrandawiad yn bresennol.<br>[Gwesteiwr y cyfarfod yn cloi'r cyfarfod i sicrhau preifatrwydd]. |
| 11. | Cadeirydd yn dod â'r sesiwn breifat i ben pan fydd penderfyniad wedi'i wneud. |

| | |
|---|---|
| 12. | Bydd penderfyniad amlinellol yr Is-Bwyllgor Trwyddedu a’r rhesymau drosto yn cael ei anfon mewn neges e-bost at bob parti â diddordeb cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Bydd y penderfyniad llawn, a’r rhesymau drosto, yn cael ei anfon mewn neges e-bost at yr holl bartïon perthnasol o fewn pum niwrnod gwaith ynghyd â gwybodaeth am hawl partïon i apelio. |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 26 Awst 2020 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | Cais i Adolygu Trwydded Eiddo dan Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003: **The North, 27 Ffordd Wellington, y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 1BA** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais i adolygu trwydded eiddo yn unol ag Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003.

Mae'r cais wedi ei gyflwyno gan y PC Manus Sheridan ar ran Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â The North, 27 Ffordd Wellington, y Rhyl, LL18 1BA. .

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais i adolygu trwydded eiddo bresennol. Gall awdurdod cyfrifol neu rywun â diddordeb alw am adolygu trwydded ond mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedair amcan trwyddedu:

- atal trosedd ac anhrefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal niwsans cyhoeddus, ac
- amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a'r (ii) Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac (iii) y gyfraith ar y pryd.

2.3 Drwy weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, mae'n rhaid i aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu.

2.4 Atgoffir aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn

mewn unrhyw achos, dim ond am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3. Argymhellion

### 3.1 Penderfyniad yr Is-bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-Bwyllgor, o ystyried y sail ar gyfer yr Adolygiad ynghyd â sylwadau ychwanegol a wneir, gymryd camau o'r fath (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Gall yr Is-bwyllgor:

- addasu amodau'r Drwydded;
- eithrio gweithgaredd trwyddedadwy o gwmpas y Drwydded;
- cael gwared ar y goruchwyliwr eiddo dynodedig;
- atal y Drwydded am gyfnod o ddim mwy na 3 mis;
- dirymu'r Drwydded

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Yn ôl canllawiau a gyflwynwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

*"Mae'r trafodion a amlinellir yn Neddf 2003 ar gyfer adolygu trwyddedau eiddo yn amddiffyniad allweddol ar gyfer y gymuned lle mae problemau sy'n gysylltiedig ag amcanion trwyddedu yn digwydd ar ôl caniatáu neu amrywio trwydded eiddo.*

*Gall awdurdod cyfrifol neu rywun â diddordeb, yn dilyn caniatáu trwydded eiddo, ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded oherwydd problem sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu"*

4.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno cais i adolygu trwydded eiddo sy'n cael ei dal gan The North Rhyl Ltd.

4.3 Y Goruchwyliwr Safle Dynodedig cyfredol yn yr eiddo yw Mr Robin Jones.

4.4 Gellir archwilio copi llawn o'r Drwydded Eiddo bresennol, gan gynnwys yr atodlen weithredu gyfredol, yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

4.4.1 Y sail dros adolygu, a nodir yn y cais, yw:

*“Methu â hyrwyddo’r Amcanion Trwyddedu, yn enwedig Atal Trosedd ac Anrhefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Niwsans Cyhoeddus”.*

4.4.2 Darparwyd manylion llawn y rhesymau dros yr adolygiad gan Heddlu Gogledd Cymru a gellir eu harchwilio yn Atodiad B yr Adroddiad hwn.

4.4.3 Mae’r cais i adolygu yn rhoi manylion amryw o ddigwyddiadau a gododd yn yr eiddo rhwng 1 Rhagfyr 2018 a 20 Ionawr 2020. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi derbyn 55 galwad yn ymwneud â digwyddiadau yn yr eiddo.

4.4.4 Yn sgil y digwyddiadau hyn, mae Heddlu Gogledd Cymru yn datgan nad oes hyder ganddynt yng ngallu rheolwyr yr eiddo i redeg yr eiddo mewn modd cyfrifol. Maent hefyd yn cyfeirio at fethiant i herio cwsmeriaid meddw a chaniatáu i gwsmeriaid feddwi yn yr eiddo, ynghyd â methiant i reoli ymddygiad cwsmeriaid a methiant i reoli a chadw rheolaeth digonol ar ddigwyddiadau o drosedd ac anrhefn.

Mae Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor yn amlinellu manylion protocol gorfodi ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru a’r Awdurdod

4.4.5 Trwyddedu ar gyfer delio â phroblemau sy’n codi mewn eiddo trwyddedig. Mae’r protocol wedi’i ddefnyddio ar sawl achlysur rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Swyddogion o gyfarfodydd ymgysylltu Cam un i lunio Cynlluniau Gweithredu. Mae manylion cyfarfodydd o’r fath i’w cael drwy gydol y cais adolygu yn Atodiad B.

4.4.6 Mae Heddlu Gogledd Cymru yn nodi bod diffyg rheolaeth lwyr yn yr eiddo, fodd bynnag, nid ydynt yn dymuno cau’r lleoliad, gan eu bod yn llwyr gefnogol ac yn annog economi hwyr y nos fywiog a diogel. Felly maent yn argymell addasiadau i amodau presennol y Drwydded Eiddo:

1. Dylai pob gweithgaredd trwyddedadwy ddod i ben erbyn 23:00 o'r gloch
2. Dylai pob cwsmer adael yr eiddo erbyn hanner nos.
   Dim ond pobl y gellir eu hadnabod yn ffurfiol fel staff a ganiateir yn yr eiddo wedi’r amser hwn
3. Dylai person sy’n gallu cael mynediad at a lawrlwytho delweddau TCC fod ar y safle bob amser pan fo gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cyflawni.
   Os nad oes y fath berson ar y safle, dylai’r eiddo roi'r gorau i bob gweithgareddau trwyddedadwy nes bod yr unigolyn hwnnw ar y safle ac ar gael.
4. Ni ddylai’r ardd gwrw gefn a’r gysgodfa smygu gefn gael eu

defnyddio ar ôl 21:00 o’r gloch o ddydd Llun i ddydd Sul

5. Dylid defnyddio ardal smygu benodol ar ôl 21:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sul yng nghefn yr eiddo.
   Dylid cyfyngu’r ardal i 5 person ar yr un pryd a bydd yr ardal yn cael ei monitro’n weithredol gan oruchwyliwr drws SIA. Ni ddylid caniatáu unrhyw ddiodydd yn yr ardal hon (mae hyn er mwyn atal pobl rhag cymryd hirach nac sydd angen)
6. Ni chaniateir i unrhyw un smygu o flaen yr eiddo ar ôl 21:00 o’r gloch
7. Dylid gweithredu amser mynediad terfynol o 23:00 o’r gloch o ddydd Llun i ddydd Sul.
8. Ni ddylid caniatáu i unrhyw gwsmer(iaid) sy’n gadael i ddod yn ôl i mewn i’r eiddo ar ôl 23:00 o’r gloch.
   Ni fydd unrhyw eithriadau i’r rheol hon e.e. cwsmeriaid yn codi arian o’r twll yn y wal neu wneud galwad ffôn.
9. Bydd o leiaf un deiliad trwydded bersonol ar ddyletswydd yn yr eiddo bob amser pan fod gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cyflawni.
10. Dylid gweini pob diod a thywallt cynnwys pob potel i lestr yfed poligarbonad bob amser pan fo gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cyflawni.
11. Dylai pob goruchwylydd drws fod wedi eu hachredu gan Gynllun Contractwyr Cymeradwy SIA.
12. Dileu swydd Robin Jones fel Goruchwyliwr Safle Dynodedig.

4.4.7 Mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd wedi darparu delweddau TCC o ddigwyddiadau sydd wedi codi ers y cyflwynwyd y cais am adolygu. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau fod copi o’r delweddau hyn wedi eu cyflwyno i Ddeiliad y Drwydded Safle.

4.5 Deddf Trwyddedu 2003 - gwybodaeth/gofynion

Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno i adolygu trwydded eiddo, mae’n rhaid rhoi copi llawn o’r cais (a’r atodiadau) i bob awdurdod cyfrifol ac i’r deilydd trwydded eiddo.

4.6 Hysbysiad Cyhoeddus

Pan dderbynnir cais am adolygiad gan yr Awdurdod Trwyddedu, mae'r Ddeddf yn mynnu bod hysbysiad sy'n hysbysebu'r cais yn cael ei arddangos, yn yr eiddo dan sylw, ac ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Trwyddedu am isafswm cyfnod o 28 diwrnod yn olynol.

4.7 Sylwadau Perthnasol

Derbyniwyd dau sylw yn cefnogi’r eiddo sydd, ym marn y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn berthnasol mewn perthynas â’r cais o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod. Gellir archwilio’r llythyrau hyn

yn Atodiad C.

4.7.1 Mae Mr Robin Jones, cyfarwyddwr The North Rhyl Ltd (a hefyd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig) hefyd wedi cyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r cais, a gellir archwilio manylion amdanynt yn Atodiad D.

4.8 Ystyriaethau a Materion sy'n berthnasol i'r Cais
Bydd Aelodau'n nodi, wrth ystyried y Cais, y dylent ystyried: -

- Cydbwyso buddiannau perchnogion, gweithwyr, cwsmeriaid a chymdogion yr eiddo.

4.9 Amcanion / Canllawiau Trwyddedu

4.9.1 Mae'r sylwadau perthnasol yn ymgysylltu'r amcanion trwyddedu.

4.9.2 Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Trosedd ac Anrhefn **Adran 2.1 i 2.6**
- Diogelwch y Cyhoedd **Adran 2.7 i 2.14**
- Atal niwsans cyhoeddus **Adran 2.15 i 2.21**

4.10 Datganiad Polisi Trwyddedu – Y Broses Adolygu

4.10.1 Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Trosedd ac Anrhefn **Adran 3.1**
- Diogelwch y Cyhoedd **Adran 2.7 i 2.14**
- Atal niwsans cyhoeddus **Adran 3.3**

4.11 Atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu -

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

**5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION**

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.

5.2 Dylai Aelodau nodi unwaith y bydd camau, fel y nodir yn Adran 3 o’r adroddiad hwn wedi eu cymryd a bod penderfyniad yn cael ei wneud, nid yw penderfyniad yr Awdurdod yn dod i rym ar unwaith. Dim ond pan fydd y cyfnod apelio wedi dod i ben y bydd unrhyw benderfyniad yn dod i rym neu, os cyflwynir apêl, ar ôl datrys yr apêl.

5.3 Dylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

5.4 Atgoffir aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu o'r angen i roi rhesymau dros eu penderfyniad.

5.6 Atgoffir aelodau y bydd yn rhaid atodi unrhyw amod y cytunir i fod yn berthnasol ac yn gymesur at y Drwydded Eiddo.

5.7 Dylai aelodau fod yn ymwybodol, wrth ystyried amodau diwygiedig i'w atodi i'r drwydded eiddo, y bydd angen dileu unrhyw amod sy'n bodoli eisoes ac sydd o natur debyg.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag